ARFARNIAD O SYMUD YMLAEN - PROSIECT CYMUNEDOL/TROSGLWYDDO DYSGU TU ALLAN I ORIAU YSGOL (DAOY)

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

...Rhagoriaeth i bawb... …Excellence for all…

© Hawlfraint y Goron 2004. Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad hwn at ddibenion anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW
Ffôn: 02920 446446
Ffacs: 02920 446448
www.estyn.gov.uk

Cynnwys	Tudalen

1. Cyflwyniad 2

2. Prif Ganfyddiadau 3

3. Argymhellion 4

4 Tystiolaeth o ymweliadau prosiect 5

4.1 Prosiect M4 – Caerdydd
4.2 Moving On Up – Wrecsam
4.3 Taro Nodyn – Sir Ddinbych
4.4 Project Extra – Ynys Môn
4.5 Prosiect Trosglwyddo Cymunedol – Blaenau Gwent

Cyfeiriadau 10

ARFARNIAD O SYMUD YMLAEN - PROSIECT CYMUNEDOL/TROSGLWYDDO DYSGU TU ALLAN I ORIAU YSGOL (DAOY)

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn arfarno'r prosiect trosglwyddo Dysgu Tu Allan i Oriau Ysgol (DAOY), a gafodd gymorth grant o £144,237 gan y Cynulliad Cenedlaethol. Comisiynwyd Education Extra Cymru, yr elusen sy'n cefnogi dysgu tu allan i oriau ysgol, i reoli'r prosiect. Roedd y prosiect yn cynnwys y pedwar tymor o fis Medi 2002 i fis Rhagfyr 2003.

1.2 Ffocws y prosiect oedd defnyddio gweithgareddau tu allan i oriau ysgol i hwyluso trosglwyddo disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. I lawer, mae gadael yr ysgol gynradd yn gyfnod anodd a all arwain at ddiffyg cynnydd, colli hyder ac ymddieithrio o'r broses ddysgu.

1.3 Nodau cyhoeddedig y prosiect oedd:

- *'galluogi clystyrau o ysgolion i ddatblygu cynllun cydlynol a strategol ar gyfer gweithgareddau cymunedol (estynedig) 'cynradd-uwchradd' gyda ffocws cychwynnol ar ddatblygu dysgu tu allan i oriau ysgol i gefnogi'r trosglwyddo o'r ysgol gynradd I'r ysgol uwchradd; a*

- *lledaenu arfer dda o fewn Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau), ysgolion a phartneriaethau cymunedol ehangach i alluogi mwy o ysgolion i ddatblygu mewn ffyrdd tebyg.'*

1.4 Gwahoddwyd pob AALl i gyflwyno ceisiadau i Education Extra Cymru. Dewiswyd deg clwstwr ysgol unigol, pob un ohonynt yn cysylltu un ysgol uwchradd â nifer o ysgolion cynradd, ar sail y cynlluniau a'r ceisiadau a gyflwynwyd. Dyma oedd y deg prosiect a'r grant a ddyrannwyd:

AALl	Enw'r Prosiect	Grant (£)
Merthyr Tudful	Corws Plant Opera Genedlaethol Cymru	15,160
Caerdydd	Prosiect M4	15,233
Sir Gaerfyrddin	Cynllun Haf	9,300
Castell-nedd Port Talbot	MADCAP	14,645
Torfaen	Adventure Teams	15,000
Wrecsam	'Moving On'	14,820
Sir Ddinbych	Taro Nodyn	10,600
Ynys Môn	Project Extra	17,919
Blaenau Gwent	Prosiect Trosglwyddo Cymunedol	15,000
Sir y Fflint	Let's Make Music	16,570
Cyfanswm		**144,237**

1.1 Roedd y fethodoleg arfarnu yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth a ddarparwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, Education Extra ac ysgolion unigol. Ymwelodd pedwar AEM â phump o'r prosiectau yn ystod Tymor yr Haf 2003, gan siarad â

disgyblion, athrawon, partneriaid cymunedol, swyddogion AALl a ymgynghorwyr Education Extra. Hefyd, aeth yr AEM cofnodol i'r seminar 'Symud Ymlaen' yn Llandrindod ym mis Hydref 2003. Trefnwyd y seminar hon gan Education Extra i:

"ddathlu llwyddiant y clystyrau a lledaenu arfer dda."

Darparodd y seminar dystiolaeth yn ogystal o'r modd y mae disgyblion a gymerodd ran yn y rhaglen 'Symud Ymlaen' wedi ymgartrefu yn eu hysgolion newydd.

2. Prif Ganfyddiadau

2.1 Cafodd y prosiect effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion tuag at symud ymlaen o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae pryderon disgyblion a rhieni ynghylch trosglwyddo yn cael eu tawelu, ac mae disgyblion yn amlwg yn magu hunan hyder a hunan-barch.

2.2 Roedd tystiolaeth o'r canlyniadau cadarnhaol hyn i'w gweld ohyd wrth i'r disgyblion symud i Flwyddyn 7 yr ysgol uwchradd. Mae'r disgyblion hyn wedi parhau eu cyfeillgarwch â phobl ifanc o ysgolion eraill, ac yn adnabod llawer o'r athrawon a fu'n gweithio gyda nhw ar y prosiect.

2.3 Mae'r prosiect wedi helpu datblygu medrau pynciol disgyblion, yn ogystal â medrau allweddol fel rhifedd, siarad a gwrando, a TGCh. Mae'r medrau hyn yn eu galluogi i ddelio'n well â gofynion cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3.

2.4 Mae'r cyfraniadau gan bartneriaid cymunedol wedi cyfoethogi profiadau dysgu'n fawr i bobl ifanc. Cafodd y disgyblion gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau, fel medrau syrcas a phrosiectau aml-gyfrwng, gydag ymarferwyr proffesiynol. Mae gweithio gydag oedolion heblaw am athrawon yn y modd hwn yn datblygu medrau disgyblion, yn ogystal â'u helpu i wneud y cysylltiad rhwng dysgu a byd gwaith.

2.5 Mae athrawon uwchradd yn ymestyn eu harbenigedd eu hunain o fedrau addysgu trwy weithio'n agos â chydweithwyr o ysgolion eraill, ac ymarferwyr proffesiynol o'r gymuned. Mae'r prosiect yn eu galluogi i roi cynnig ar weithgareddau na fyddent fel arfer yn defnyddio gyda disgyblion Blwyddyn 7. Mae athrawon cynradd yn ymestyn eu gwybodaeth pwnc hefyd trwy weithio ochr yn ochr ag athrawon uwchradd arbenigol. Mae'r arferion cydweithredu hyn yn enghreifftiau o arfer dda yn y cyfnod trosglwyddo, fel a amlygwyd yn nogfen ddiweddar Estyn: *'Symud ymlaen…Effeithiol o Gyfnod Pontio Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3'.* Roedd yr adroddiad hwnnw'n argymell, ymhlith pethau eraill, y dylai ysgolion:

- *'alluogi athrawon cynradd ac uwchradd i arsylwi addysgu yn ysgolion ei gilydd a chytuno ar y safonau gwaith a ddisgwylir gan ddisgyblion;*

- *helpu disgyblion i wneud cynnydd gwell trwy rannu arbenigedd pwnc a sicrhau parhad mewn cynlluniau gwaith o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.'*

2.6 Mae llawer o swyddogion AALl wedi gweithio'n agos â chydlynwyr prosiect ac ymgynghorwyr Education Extra i fonitro ac arfarnu'r canlyniadau. Fodd bynnag, ychydig o ledaenu arfer dda sy'n digwydd i ysgolion eraill o fewn yr AALlau.

2.7 Mae pob ysgol gyfrannog wedi ymrwymo i'r egwyddor o ddefnyddio gweithgareddau tu allan i oriau ysgol i helpu'r trosglwyddo. Fodd bynnag, ni fydd modd i'r clystyrau gynnal lefel y gweithgareddau yn y blynyddoedd i ddod heb nawdd parhaus. Mae llawer o'r clystyrau, ynghyd â'r AALl, eisoes yn edrych, yn llawn dychymyg, ar y modd y gellir cronni arian craidd er mwyn parhau â'r gwaith partneriaeth ar drosglwyddo.

2.8 Nid oedd cynllunio'r prosiectau mor drylwyr ag y byddai ysgolion yn dymuno, oherwydd y cyfnod amser byr rhwng cyhoeddi'r grant a rhoi'r prosiect ar waith.

2.9 Amharwyd ar rai gweithgareddau eraill tu allan i oriau ysgol yn sgil y gofynion ar lwyth gwaith athrawon unigol, a'u hymrwymiad ymrwymiad i'r prosiect proffil uchel hwn.

2.10 Chwaraeodd Education Extra ran bwysig wrth gydlynu, monitro ac arfarnu'r prosiect. Mae seminarau wedi llwyddo lledaenu arfer dda ar draws y prosiectau cyfrannog. Mae ysgolion hefyd wedi gwerthfawrogi'r arweiniad a'r gynhaliaeth a ddarparwyd gan y sefydliad a'i ymgynghorwyr.

3. Argymhellion

3.1 Dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried:

- grant pellach i gynnal ac ymestyn y gwaith dros y tymor byr a'r tymor hwy; a

- cyfnod hwy rhagarweiniol gyfer prosiectau yn y dyfodol sy'n cael cymorth grant, ac sy'n cael cyfraniadau sylweddol gan bartneriaid cymunedol.

3.1 Dylai AALlau:

- weithio gyda chlystyrau o ysgolion i archwilio ffyrdd y gellir defnyddio arian craidd i ddarparu adnoddau i weithgareddau trosglwyddo tu allan i oriau ysgol yn y dyfodol; a

- sicrhau bod yr arfer orau o bob un o'r prosiectau'n cael ei lledaenu'n eang er mwyn i fwy o glystyrau o ysgolion allu manteisio mewn ffyrdd tebyg.

4. Tystiolaeth o ymweliadau prosiect a gynhaliwyd ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2003

4.1 Prosiect M4 – Caerdydd

Mae hwn yn brosiect aml-gyfrwng sy'n cysylltu pedair ysgol gynradd sy'n bwydo Ysgol Uwchradd Llanedern er mwyn cynhyrchu fideo, gwefan a llyfryn gwybodaeth i rieni disgyblion sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae un o Ganolfannau Dysgu Caerdydd o fewn y clwstwr ysgol uwchradd hwn. Nodau'r Ganolfan yw: cydlynu cynhaliaeth astudio ar gyfer llythrennedd, rhifedd a TGCh; darparu ffocws i ddysgu tu allan i oriau ysgol; a thynnu ar gefnogaeth partneriaid cymunedol eraill yn y broses addysg. Mae'r prosiect aml-gyfrwng, sydd â chysylltiadau ag Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC), y BBC, a sefydliadau cyfryngau eraill wedi arwain at bum canlyniad ar wahân:

- fideo i'w ddefnyddio gyda disgyblion sy'n trosglwyddo, eu rhieni a'u hathrawon;
- gwefan trosglwyddo ar gyfer y clwstwr;
- cyfleuster e-bost a chyfleuster ystafell sgwrsio ddiogel;
- pecyn addysg gymdeithasol trosglwyddo i athrawon; a
- llyfryn gwybodaeth i ddisgyblion a rhieni.

Agweddau cadarnhaol:

✓ Mae disgyblion wedi disgrifio, wynebu a thawelu'u pryderon ynghylch trosglwyddo.
✓ Mae'r disgyblion wedi cynhyrchu adnoddau o safon uchel, a'u cyflwyno mewn nifer o ffyrdd.
✓ Mae'r broses wedi gwella hunan hyder a hunan-barch disgyblion a datblygu'u gallu i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.
✓ Mae rhieni'n falch â datblygiad personol a chymdeithasol eu plant ac yn falch bod pryderon am eu plant wrth drosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd wedi'u tawelu.
✓ Mae athrawon yn gweithio'n agosach fyth gydag athrawon o ysgolion eraill yn y gymuned.
✓ Mae athrawon sydd wedi bod ynghlwm eisoes yn cynllunio prosiectau cysylltiedig.
✓ Mae pawb a gymerodd ran wedi datblygu ymrwymiad cadarn i ystad Llanedern. Mae'r prosiect hwn yn enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth, sydd wedi canolbwyntio ar gymuned gyfan Llanedern, ac wedi bod o fudd mawr i ddisgyblion, rhieni, ysgolion ac athrawon.
✓ Mae buddsoddi mewn ymgynghorwyr yng nghyfnodau cynnar y prosiect wedi sicrhau ansawdd.
✓ Bu cydlynu a chyfathrebu da a chyson o fewn y prosiect.
✓ Mae hwn yn enghraifft wych o'r modd y gall canolfannau dysgu cymunedol weithio.

Diffygion:

x Mae ymgynghorwr cyswllt yr ysgol a'r ymgynghorwr sydd â chyfrifoldeb am drosglwyddo yn y ddinas yn ymwybodol o'r prosiect, ond ni chawsant unrhyw gysylltiad uniongyrchol.

x Nid oes cynlluniau i ledaenu canlyniadau y prosiect ar draws pob ysgol yn yr AALl, nac i gyhoeddi llwyddiant y prosiect.

4.2 'Moving On Up' – Wrecsam

Prosiect y celfyddydau perfformio yw 'Moving On Up' sy'n cynnwys bron pob disgybl Blwyddyn 6 o bump o ysgolion partner Ysgol Gyfun y Grango yn Rhosllannerchrugog. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithdai i ddatblygu medrau yn gysylltiedig â'r theatr, yn eu hysgol eu hunain ac yn yr ysgol uwchradd. Mae defnyddio grŵp proffesiynol theatr mewn addysg, Bitesize Theatre, wrth galon 'Moving On Up', ac mae'n cynnig gweithdai actio, celf, rheoli technegol, ysgrifennu, gymnasteg, medrau syrcas, dawnsio, cyhoeddusrwydd a threfniadau blaen tŷ. Mae'r rhaglen gelfyddydau gymunedol yn gorffen gyda pherfformiad cyhoeddus yn y theatr lleol, Theatre Stiwt. Mae disgyblion Blwyddyn 7, rhieni, y coleg lleol a'r gymuned fusnes yn cyfrannu at y prosiect.

Agweddau cadarnhaol:

- ✓ Mae dros 95% o ddisgyblion Blwyddyn 6 o'r ysgolion cynradd cyfrannog yn cymryd rhan yn y gweithgareddau.
- ✓ Mae cysylltiad cadarnhaol disgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 o Ysgol Y Grango wedi symud yr ysgol llawer yn agosach tuag at gyflwyno 'cynllun cyfaill'.
- ✓ Cymerodd disgyblion ran yn y gweithgareddau gyda chryn frwdfrydedd a hyder.
- ✓ Mae disgyblion yn arddangos mwy o hyder ym Mlwyddyn 7 oherwydd eu bod eisoes wedi gwneud ffrindiau drwy'r prosiect. Mae un arfarniad disgybl yn adrodd: *"Roedd yn hwyl gweithio fel tîm gyda phlant mewn ysgolion eraill a chwrdd â ffrindiau newydd."*
- ✓ Mae partneriaeth weithio gref rhwng yr ysgol, y swyddog AALl, Education Extra, cyfarwyddwr y prosiect a phobl broffesiynol yn y gymuned.
- ✓ Roedd penodi rheolwr â medrau arbenigol, o sefydliad cymunedol (Bitesize Theatre), yn gymorth i ddisgyblion weld pa mor berthnasol oedd y gweithgareddau o fewn cyd-destun ehangach.
- ✓ Rhoddodd rheolwyr y theatr leol gynhaliaeth ymarferol dda iawn i'r prosiect.
- ✓ Fe wnaeth y cyfraniadau gan staff nad ydynt yn staff addysgu yn Ysgol Y Grango sicrhau bod pob disgybl yn gallu cael ei fonitro a'i oruchwylio yn ystod y gweithgareddau.
- ✓ Datblygodd yr athrawon a gymerodd ran lawer o fedrau newydd yn y celfyddydau perfformio a medrau cysylltiedig.

Diffygion:

- x Nid oedd y trefniadau cludiant yn ddibynadwy bob amser.
- x Roedd presenoldeb gwael mewn cyfarfod Rhieni ac Athrawon ar y cyd ar gyfer yr holl ysgolion cyfrannog.
- x Amharwyd ar glybiau eraill tu allan i oriau ysgol oherwydd gofynion ar lwyth gwaith athrawon unigol.

4.3 Taro Nodyn – Sir Ddinbych

Mae Ysgol Glan Clwyd yn ysgol uwchradd Gymraeg yn Llanelwy, Sir Ddinbych. Mae ganddi saith o ysgolion cynradd partner gwledig. Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Glan Clwyd yn ystod yr awr ginio i gael gwersi mewn medrau cerddoriaeth ar yr allweddellau. Mae'r prosiect yn cael ei reoli gan Dîm Datblygu Cerddoriaeth yr AALl a golyga bod tiwtoriaid arbenigol ar yr allweddellau yn gweithio gyda disgyblion Blwyddyn 6 a 7. Gweithia'r disgyblion o fewn Canolfan Gerddoriaeth Yamaha, a benthycwyd allweddell i bob un o'r ysgolion cynradd er mwyn cyfnerthu dysgu o'r ymweliadau gweithdy. Bydd y prosiect yn gorffen gyda pherfformiad yn y Ganolfan Celfyddydau Cymunedol yn Ysgol Glan Clwyd.

Agweddau cadarnhaol:

- ✓ Mae'r prosiect yn rhoi cynhaliaeth effeithiol i'r trosglwyddo o CA2 i CA3, sy'n flaenoriaeth yng Nghynllun Datblygu Ysgol Ysgol Glan Clwyd.
- ✓ Mae disgyblion ysgol gynradd wedi gallu gweld yr ysgol uwchradd yn gweithio ac ymgyfarwyddo'n llawer gwell â chynllun yr ysgol nag a fyddent yn ystod y digwyddiadau 'unigol' ffurfiol arferol sy'n cael eu trefnu fel rhan o'r rhaglen drosglwyddo sefydledig. Fel y dywedodd un pennaeth, *'mae'r prosiect hwn wedi rhoi ymdeimlad o berthyn i'r disgyblion yn yr ysgol'.*
- ✓ Er iddynt gyfaddef eu bod yn teimlo'n weddol anesmwyth wrth ymweld â 'Taro Nodyn' y tro cyntaf, mae'r disgyblion wedi magu hyder ac yn edrych ymlaen at symud ymlaen i'r Ysgol Uwchradd.
- ✓ Roedd ymrwymiad amlwg iawn oddi wrth y penaethiaid cynradd i gyfrannu at lwyddiant y prosiect hwn. Gwnaethant yn siŵr bod eu disgyblion yn gallu mynychu'r sesiynau, er gwaethaf unrhyw amharu ar y trefniadau addysgu.
- ✓ Datblygodd tiwtoriaid yr allweddellau berthnasoedd gweithio rhagorol gyda'r disgyblion. Crëwyd ymdeimlad o hwyl a chymysgwyd yr addysgu â gemau a chystadlaethau.
- ✓ Mae Swyddog Celfyddydau'r Sir a'i Swyddog Cynorthwyol Datblygu Cerdd wedi bod yn weithredol gyda'u cefnogaeth i'r prosiect er mwyn cynyddu'r cyfleoedd o weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y celfyddydau.

Diffygion:

- x Nid oes strategaeth ymadael i gynorthwyo cynaladwyedd ymhellach na'r nawdd grant.
- x Cyfyngedig yw'r cyfleoedd ar gyfer staff addysgu o'r ysgolion clwstwr i elwa o'r prosiect.
- x Mae ysgolion cynradd bach gwledig wedi'i chael hi'n anodd rhyddhau aelod o staff i fynd gyda'u disgyblion.
- x Nid oedd cynllun y prosiect yn cynnwys strategaeth i ddatblygu cysylltiad y gymuned. O ganlyniad, ychydig o gynnydd a fu yn hyn o beth. Hefyd, roedd y raddfa amser ar gyfer y prosiect yn ei gwneud hi'n anodd datblygu'r agwedd hon ar y gwaith.

4.4 Project Extra - Ynys Môn

Mae Ysgol Uwchradd Caergybi a'i hysgolion cynradd partner yn cydweithio i ddelio â materion anfodlonrwydd a thangyflawni yn ystod y cyfnod trosglwyddo, trwy ganolbwyntio ar ffyrdd ysgogol o gyflwyno'r medrau sylfaenol. Mae'r prosiect hwn

wedi'i seilio ar atgyfnerthu ac ymestyn y cwricwlwm craidd trwy ddarparu ystod o heriau mathemateg, gwyddoniaeth a llenyddiaeth, yn ogystal â chynhyrchu fideo sy'n edrych ar faterion trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Bob wythnos, caiff 30 o ddisgyblion Blwyddyn 6 eu cludo i'r ysgol uwchradd, ar ddiwedd y diwrnod ysgol, ar gyfer cyfres o weithdai ar lythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth. Bydd y clybiau hyn yn para am awr ar dair noson yr wythnos.

Agweddau cadarnhaol:

- ✓ Dangosodd yr holl ddisgyblion y gwnaethpwyd arolwg ohonynt fod eu canfyddiadau o'r ysgol uwchradd wedi gwella o ganlyniad i'r prosiect.
- ✓ Mae'r presenoldeb wedi bod yn agos iawn at 100% ar hyd y prosiect.
- ✓ Ymgorfforwyd y broses arfarnu i gynllunio cychwynnol y prosiect.
- ✓ Targedodd yr ysgolion cynradd y disgyblion a oedd yn dangos arwyddion o anfodlonrwydd.
- ✓ Mae'r bechgyn a dargedwyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drama wedi datblygu o ran hyder.
- ✓ Mae medrau meddwl y disgyblion yn cael eu datblygu o fewn cyd-destun gweithgareddau llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth.
- ✓ Mae athrawon uwchradd a chynradd yn ymestyn eu medrau addysgol trwy gymryd rhan yn y prosiect. Er enghraifft, mae athrawon cynradd yn cael mynediad i labordai ac offer gwyddonol Ysgol Uwchradd Caergybi, ac mae athrawon uwchradd yn datblygu'u medrau wrth addysgu llythrennedd a rhifedd.
- ✓ Mae'r cysylltiadau rhwng ysgolion cyfrannog wedi gwella o ganlyniad i'r prosiect.
- ✓ Mae athrawon yn rhoi cynnig llwyddiannus iawn ar weithgareddau na ddefnyddir fel arfer gyda disgyblion Blwyddyn 7.
- ✓ Mae lefel uchel o gydweithredu ymhlith disgyblion o ysgolion gwahanol.
- ✓ Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cludo disgyblion cynradd i'r ysgol uwchradd wedi'i chynllunio'n dda iawn.

Diffygion

- x Nid yw cylch ariannu'r Cynulliad yn cyd-daro â chylch cynllunio'r ysgol. Fe wnaeth amseriad cyhoeddi'r cynllun greu anawsterau o ran sicrhau bod y prosiect yn cael ei gynllunio'n drylwyr.
- x Amharwyd ar weithgareddau eraill dysgu tu allan i oriau ysgol o ganlyniad i'r cynllun.
- x Ychydig iawn o gyfraniad a gafwyd gan y gymuned oherwydd y cyfnod amser byr a oedd ar gael i gynllunio'r gwaith.
- x Ni lwyddodd y prosiect i ddenu llawer o'r disgyblion â llai o gymhelliant, yn enwedig bechgyn.
- x Nid yw trosglwyddo yn ymddangos fel blaenoriaeth mewn llawer o'r cynlluniau datblygu ysgol cynradd.

4.5 Prosiect Trosglwyddo Cymunedol – Blaenau Gwent

Mae prosiect Blaenau Gwent, Watch This Space, yn cysylltu ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd leol â sefydliadau fel Coca Cola Enterprises a BBC Cymru, mewn cyfres o heriau, diwrnodau hwyl ac ymweliadau. Mae'n ceisio hyrwyddo hyder mewn

disgyblion wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Hefyd, nod y prosiect yw amlygu disgyblion i gyfnod trosglwyddo hwyrach, sef mynediad i fyd gwaith.

Agweddau cadarnhaol:

- ✓ Mae medrau cymdeithasol disgyblion wedi gwella, yn ogystal â'u medrau siarad a gwrando.
- ✓ Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn fwy cyfarwydd â'r staff yn yr ysgol gyfun yn sgil yr ymweliadau a'r diwrnod gweithdy.
- ✓ Mae'r prosiect yn datblygu cysylltiadau busnes da i helpu'r trosglwyddo.
- ✓ Mae Busnes yn y Gymuned wedi cyflogi chwe phartner i weithio gyda'r ysgolion. Y chwech yw BBC Cymru, Nwy Prydain, Coca-Cola Enterprises, T-Mobile, Buy as You View a Chanolfan y Llysoedd Sifil Caerdydd.
- ✓ Mae'r adran fathemateg yn Ysgol Gyfun Glynebwy yn gweithio gydag athrawon Blwyddyn 6 yn y pum ysgol partner i greu uned bontio ar gyfer mathemateg.
- ✓ Mae pob disgybl Blwyddyn 6 yn cymryd rhan o bob un o'r ysgolion cynradd.
- ✓ Mae gan yr ysgol gyfun a'r ysgolion cynradd sianelau cyfathrebu mwy effeithiol erbyn hyn ar lefel UDRh a lefel adrannol.
- ✓ Mae llawer o'r disgyblion nad ydynt wedi teithio tu allan i ardal leol gyfyngedig iawn bellach yn cael eu cymell i feddwl am y byd y tu hwnt i Lynebwy. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion wedi cael profiadau na fyddent wedi'u cael fel arall, fel ymweld â BBC Cymru yng Nghaerdydd.

Diffygion

- x Heb nawdd pellach, mae'n annhebygol y bydd y prosiect yn cael ei gynnal ar gyfer carfanau'r dyfodol.
- x Nid oes cynlluniau strategol i adeiladu ar fuddion y prosiect hwn i'r garfan hon pan fyddant yn mynd i mewn i Flwyddyn 7.
- x Nid yw'r prosiect yng nghynlluniau datblygu ysgol yr ysgol gyfun, na'i hysgolion cynradd partner.
- x Cyfyng fu'r llwyddiant o ran cael y busnesau i gymryd diddordeb y tu allan i'r dyddiau a bennwyd ar gyfer y prosiect. Mae'r un busnesau yn gysylltiedig â llawer o ysgolion ar draws ardal De Cymru, ac nid yw'r amser na'r adnoddau ganddynt i gymryd rhan mewn gweithgareddau mwy cyson.

Cyfeiriadau

Symud Ymlaen 2002 - 2003 Nod y Prosiect	*Education Extra*
Ffurflen Gais y Cynllun ar gyfer pob un o'r deg prosiect.	*LICC/Education Extra*
Seminar Symud Ymlaen 23 Hydref 2003	*Education Extra*
Symud Ymlaen – Transition Moves Forward (Cyhoeddiad yn rhoi gwybodaeth am waith pob clwstwr)	*Education Extra*
Symud ymlaen… Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3	*Estyn, LICC, ACCAC*